**Rhif:** WG37378

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Canllawiau a phecyn cymorth gwrth-fwlio drafft

Parchu eraill – Ysbrydoli hawliau, parch a chydraddoldeb

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2019

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron 2019 ISBN Digidol 978-1-83876-157-8

## Parchu eraill
## Ysbrydoli hawliau, parch a chydraddoldeb

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill, y trydydd sector, y sector gwirfoddol, rhieni/gofalwyr, plant a phobl ifanc a phartïon eraill â diddordeb. |
| **Trosolwg** | Gofynnodd yr ymgynghoriad hwn am sylwadau ar y canllawiau gwrth-fwlio drafft a detholiad o adnoddau ategol |
| **Y camau gweithredu sydd eu hangen** | Dim camau gweithredu – er gwybodaeth yn unig. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at: Cangen Cefnogi Cyflawniad a Diogelu, Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr, Y Gyfarwyddiaeth Addysg, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ e-bost: CCD.SAS@gov.wales<br><br>**@LlC_Addysg**<br><br>Facebook/AddysgCymru |
| **Copïau ychwanegol** | Gellir cael gafael ar y ddogfen hon o wefan Llywodraeth Cymru yn https://llyw.cymru/canllawiau-drafft-i-herio-bwlio-mewn-ysgolion |
| **Dogfennau cysylltiedig** | Dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru - Parchu eraill - Ysbrydoli hawliau, parch a chydraddoldeb (2018) |

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **2** |
| **Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad** | **2** |
| **Ymateb y Llywodraeth** | **3** |
| **Canllawiau gwrth-fwlio** | **4** |
| **Cwestiwn 1** | **4** |
| **Cwestiwn 2** | **5** |
| **Cwestiwn 3** | **8** |
| **Cwestiwn 4** | **9** |
| **Cwestiwn 5** | **10** |
| **Cwestiwn 6** | **15** |
| **Pecyn cymorth adnoddau gwrth-fwlio** | **16** |
| **Cwestiwn 7** | **16** |
| **Cwestiwn 8** | **18** |
| **Cwestiwn 9** | **19** |
| **Cwestiwn 10** | **20** |
| **Cwestiwn 11** | **21** |
| **Cwestiwn 12** | **23** |
| **Cwestiwn 13** | **24** |
| **Cwestiwn 14** | **24** |
| **Atodiad A - Cwestiynau'r Ymgynghoriad** | **24** |

# Cyflwyniad

Rhwng 14 Tachwedd 2018 a 15 Chwefror 2019, gwnaethom ymgynghori ar gynigion i ddiwygio canllawiau gwrth-fwlio Llywodraeth Cymru. Lluniwyd pecyn cymorth o adnoddau enghreifftiol i ategu'r canllawiau drafft.

Yn ein hymgynghoriad, cynigiwyd y dylid diweddaru'r canllawiau gwrth-fwlio er mwyn sicrhau eu bod yn gliriach ac yn haws eu defnyddio. Gofynnodd yr ymgynghoriad am adborth o ran p'un a oedd y canllawiau drafft yn ddigon clir mewn perthynas â nifer o feysydd allweddol, gan gynnwys y canlynol:

- trechu bwlio mewn ffordd fwy cyfannol, gan sicrhau bod y canllawiau yn adlewyrchu polisi a diwygiadau ehangach sydd eisoes ar waith neu a fydd yn cael eu rhoi ar waith yn y dyfodol;
- mwy o eglurder ynglŷn â'r hyn a ystyrir yn fwlio a'r hyn nad ystyrir yn fwlio;
- rolau a chyfrifoldebau o ran ymdrin â bwlio mewn ysgolion a'r tu allan iddynt;
- mathau o fwlio - gan gynnwys nodweddion gwarchodedig;
- beth i'w wneud os bydd pryder bod bwlio yn digwydd;
- y trefniadau ar gyfer rhoi gwybod am achosion o fwlio, cofnodi achosion o'r fath a'u monitro;
- strategaethau atal ar gyfer herio ymddygiad bwlio;
- hawliau plant;
- deddfwriaeth sy'n sail i wrth-fwlio.

Roedd y canllawiau drafft hefyd yn cynnwys cyfeiriadau at amrywiaeth o adnoddau gwrth-fwlio er mwyn helpu ysgolion i roi'r polisi ar waith ar lefel weithredol.


Ni fwriadwyd i'r ymgynghoriad newid y gofynion a nodir ar hyn o bryd mewn deddfwriaeth, ond yn hytrach, i egluro'r gofynion sydd eisoes ar waith.

Diben yr ymgynghoriad oedd cadarnhau p'un a oedd y canllawiau drafft i blant a phobl ifanc a'r canllawiau drafft i ysgolion a'r amrywiaeth o adnoddau ategol i ysgolion, yn diwallu anghenion y cynulleidfaoedd allweddol.

# Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Mae'r dadansoddiad canlynol yn seiliedig ar y 65 o ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad.
Derbyniwyd 34 o ymatebion drwy system ymgynghori ar-lein Llywodraeth Cymru.
Derbyniwyd 31 o ymatebion pellach drwy e-bost.
Cyflwynwyd pedwar ymateb yn Gymraeg.

Categoreiddiwyd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad fel a ganlyn:




Roedd y nifer fwyaf o ymatebwyr a nodwyd yn dod o'r trydydd sector/sector gwirfoddol (14), y sector addysg/blynyddoedd cynnar (9) ac awdurdodau lleol (7).

## Ymateb y Llywodraeth

Ategwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus gan chwe digwyddiad ymgysylltu. Roedd dau ddigwyddiad wedi'u hanelu at blant a phobl ifanc o ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd. Digwyddiadau amlasiantaeth rhanbarthol oedd y pedwar digwyddiad arall; roedd y cyfranogwyr yn cynnwys ymarferwyr addysg, Estyn, swyddogion llywodraeth leol a chynrychiolwyr o'r heddluoedd a Byrddau Iechyd Lleol. Roedd hwyluswyr allanol yn bresennol yn y chwe digwyddiad; gwnaethant arwain trafodaethau yn y gweithdai ac maent wedi llunio crynodebau, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r crynodeb hwn o ymatebion.


Caiff yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, ynghyd â'r adborth a gafwyd o'r digwyddiadau ymgysylltu, eu defnyddio i lywio'r broses o ddatblygu'r gyfres o ganllawiau terfynol a'r pecyn cymorth adnoddau ategol, a gyhoeddir yn ystod y flwyddyn academaidd newydd.

## Canllawiau gwrth-fwlio

## Cwestiwn 1

### Ydy'r canllawiau gwrth-fwlio yn cael eu hesbonio'n glir? Os nad ydyn nhw, pa feysydd y gellid eu gwella a pham? A oes yna agweddau rydych chi'n eu hoffi'n arbennig ac, os felly, pam?

O ganlyniad i dalgrynnu, mae'n bosibl na fydd bob amser yn ymddangos bod y canrannau a ddangosir yn y siart isod yn dod i gyfanswm o 100%




Roedd ychydig yn llai na phedwar o bob deg ymatebwr yn cytuno bod y canllawiau gwrth-fwlio yn cael eu hesbonio’n glir (37%). Nid oedd ychydig dros draean o'r ymatebwyr wedi penderfynu p'un a yw'r canllawiau yn glir. Darparwyd sylwadau ategol gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, ni waeth p'un a oeddent yn cytuno, yn anghytuno neu os nad oeddent wedi penderfynu eto.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr o blaid llunio canllawiau ar wahân wedi'u targedu at gynulleidfaoedd allweddol.

> *"Rwy'n croesawu'r dull gweithredu mewn perthynas â gwybodaeth oed-benodol, gydag amlinelliad clir o gyfrifoldebau unigolion, rhieni, athrawon ac ati a'r ffocws ar atal yn ogystal â mynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion"* (Translation)

Roedd gan ymatebwyr safbwyntiau gwahanol o ran p'un a yw'r canllawiau yn darparu digon o eglurder o ran y pynciau allweddol yn y ddogfen.

> *"Mae'r canllawiau wedi'u nodi'n glir. Nodwyd materion cyfredol yn glir, yn ogystal â'r hyn sydd angen ei wneud. Mae'r rhestr termau ar y dechrau yn ddefnyddiol hefyd – ac mae'n braf gweld hyn yn cael ei nodi cyn i ni ddarllen y ddogfen yn hytrach nag ar y diwedd.”* [Cyfieithiad]

*“Nid yw 'Ymateb pan fydd yna fwlio' ac 'Ymyriadau' yn arbennig o ddefnyddiol gan nad oes digon o wybodaeth am yr adnoddau pragmatig i wneud hyn.”* [Cyfieithiad]

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn hoffi'r eglurder y mae'r canllawiau yn ei gynnig wrth ddiffinio bwlio.

*"Rwy'n falch gweld eich bod wedi ystyried y diffiniad o fwlio a'ch bod hefyd wedi nodi nad oes unrhyw ddiffiniad cyfreithiol ar gael. Mae'r ddogfen yn gweithredu mewn ffordd fodern gan gydnabod yr amrywiol fathau o fwlio sy'n digwydd yn yr oes fodern hon...”* [Cyfieithiad]

Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn hoffi'r ffaith y byddai'r canllawiau yn cael eu targedu at gynulleidfaoedd allweddol, mynegodd rhai bryder nad oedd y canllawiau i blant a phobl ifanc (11-18 oed) yn briodol ar gyfer y grŵp oedran hwnnw ar hyn o bryd o ran eu dyluniad a'u cynnwys ac na fyddent yn apelio i'r gynulleidfa honno.

*"Gallai'r canllawiau sydd wedi'u hanelu at blant a phobl ifanc, ac yn arbennig y canllawiau i bobl ifanc rhwng 11 ac 18 oed, fod yn fwy hygyrch o ran eu cyflwyniad a'u fformat"* [Cyfieithiad]

Roedd awgrymiadau o ran sut y gellid sicrhau bod y canllawiau yn gliriach byth yn cynnwys y canlynol:


*"Mae'r llyfryn hwn yn glir ac yn gynhwysfawr ac yn ymdrin ag amrywiaeth eang o faterion. Efallai bod angen mwy o enghreifftiau o arfer da / enghreifftiau o bolisïau yr ystyrir eu bod yn effeithiol."* [Cyfieithiad]

*"Rydym yn falch o weld dulliau cwricwlaidd yn cael eu crybwyll yn y canllawiau ond yn credu y gellid ymhelaethu ar yr adran hon."* [Cyfieithiad]

## Cwestiwn 2

### Ydy'r canllawiau gwrth-fwlio yn hawdd eu defnyddio? Os nad ydyn nhw, pa feysydd y gellid eu gwella a pham? A oes yna agweddau rydych chi'n eu hoffi'n arbennig ac, os felly, pam?

O ganlyniad i dalgrynnu, mae'n bosibl na fydd bob amser yn ymddangos bod y canrannau a ddangosir yn y siart isod yn dod i gyfanswm o 100%




Roedd bron i hanner yr ymatebwyr yn cytuno bod y canllawiau drafft yn hawdd eu defnyddio (44%). Roedd adborth gan ymatebwyr yn cynnwys y canlynol:

*Fersiwn gryno o'r tair dogfen ganllaw ar wahân a gyhoeddwyd ym mis Medi 2011 ydyw, sy'n ei gwneud hi'n haws ei darllen a'i deall"* [Cyfieithiad]

*"Mae defnyddio eiconau ar gyfer y pecyn cymorth, gan gyfeirio'n benodol at ba ran o'r pecyn cymorth y mae pob eicon yn cyfeirio ati yn syniad ardderchog"* [Cyfieithiad]

Fodd bynnag, mynegodd rhai ymatebwyr bryder y gellid colli manylion pwysig o bosibl drwy symleiddio'r canllawiau.

*"Er bod sawl elfen gadarnhaol yn y canllawiau… ar eu ffurf gyfredol, nid ydynt yn cynnig digon o gymorth i ysgolion ymdrin ag achosion o fwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig"* [Cyfieithiad]

*"Efallai nad oes digon o wybodaeth yn yr adran Ymyriadau ychwaith...nid yw'n cynnwys digon o fanylion am ddulliau ymyrryd, a dewisiadau amgen os na fydd y strategaethau cychwynnol yn gweithio"* [Cyfieithiad]

Yn ogystal â rhai o'r ymatebion a gafwyd i Gwestiwn 1, roedd rhai ymatebwyr o'r farn nad oedd y canllawiau i blant a phobl ifanc mor hawdd eu defnyddio.

*"Nid wyf yn credu bod y ddogfen i bobl ifanc rhwng 11 ac 18 oed yn hawdd iawn i bobl ifanc ei defnyddio. Mae'n eithaf diflas a phlaen ac mae'n cynnwys llawer o wybodaeth. Mae angen ei rhannu'n fwy o bwyntiau bwled"* [Cyfieithiad]

*"Mae angen ystyried negeseuon hefyd yng nghyd-destun y cam datblygu ac aeddfedrwydd y plentyn / person ifanc yn hytrach na'r oedran cronolegol yn unig; byddai hyn hefyd yn ystyried plant / pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol"* [Cyfieithiad]

Roedd yr awgrymiadau ar gyfer sicrhau bod y canllawiau yn haws eu defnyddio yn cynnwys y canlynol:


*"A ellid ei droi'n ap?"* [Cyfieithiad]

*"Byddai fersiwn gweledol neu animeiddiad yn ddefnyddiol i'r disgyblion hynny ag ADY [anghenion dysgu ychwanegol]"* [Cyfieithiad]

## Cwestiwn 3

### Ydy'r canllawiau gwrth-fwlio yn cysylltu'n iawn â meysydd polisi a chanllawiau ehangach ar bynciau ar wahân ond cysylltiedig? A oes yna gysylltiadau â meysydd cysylltiedig na soniwyd amdanynt yn y canllawiau y dylid rhoi sylw iddynt?

O ganlyniad i dalgrynnu, mae'n bosibl na fydd bob amser yn ymddangos bod y canrannau a ddangosir yn y siart isod yn dod i gyfanswm o 100%




Roedd dros hanner yr ymatebwyr (53%) o'r farn nad yw'r canllawiau gwrth-fwlio yn cysylltu'n llawn â meysydd cysylltiedig. Roedd y meysydd penodol a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- dull gweithredu ysgol gyfan mewn perthynas ag iechyd meddwl a lles
- y cwricwlwm newydd
- cydraddoldeb a gwahaniaethu mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig unigol
- cofnodi a chyflwyno adroddiadau (yn arbennig mewn perthynas â throseddau casineb a dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

*“Dylid atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng y canllawiau / pecyn cymorth hwn a'r agenda iechyd meddwl a lles ehangach”* [Cyfieithiad]

*“Cysylltiadau cryfach â phedwar diben y cwricwlwm newydd”* [Cyfieithiad]

*"Cyfeirir at bolisi'r ysgol ar gydraddoldebau a pholisïau ar droseddau casineb, ond dylid nodi'r cysylltiadau hyn yn gliriach."* [Cyfieithiad]

Roedd y meysydd eraill lle y gofynnodd ymatebwyr am well cysylltiadau neu wybodaeth ychwanegol yn cynnwys y canlynol:

- digidol ac ar-lein
- dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau
- rôl asiantaethau a gwasanaethau allanol.

*"Nid oes unrhyw gysylltiad â Fframwaith Cymhwysedd Digidol Llywodraeth Cymru..."* [Cyfieithiad]

*"Gwnaed sawl cysylltiad o fewn corff a fframwaith y dogfennau a'r adnoddau, ac er bod cyfeiriadau at CCUHP… nid yw'r ffocws ar hawliau a dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau mor gadarn ag y gallai fod…"* [Cyfieithiad]

*"Dylid nodi'n glir o dan ba amgylchiadau y dylai ysgol gynnwys gwasanaethau plant a'r heddlu."* [Cyfieithiad]

Nododd dros chwarter yr ymatebwyr (28%) fod y canllawiau yn cysylltu'n iawn â meysydd ehangach.


*"Mae'r canllawiau yn cyfeirio'n fras at feysydd polisi ehangach ond mae cymaint o wybodaeth gwrth-fwlio fel y gallai fod yn ddryslyd cyfeirio'n fanwl at lawer o feysydd polisi eraill."* [Cyfieithiad]

*"Mae'n cysylltu'n dda â pholisïau eraill h.y. presenoldeb, ymddygiad a diogelu"* [Cyfieithiad]

## Cwestiwn 4

### A ddylai meysydd eraill gael eu cynnwys yn y canllawiau gwrth-fwlio nad ydych chi wedi cael cyfle i wneud sylwadau arnynt uchod? Os felly, rhowch fanylion.

O ganlyniad i dalgrynnu, mae'n bosibl na fydd bob amser yn ymddangos bod y canrannau a ddangosir yn y siart isod yn dod i gyfanswm o 100%




Roedd dros hanner yr ymatebwyr (55%) o'r farn y dylid cynnwys meysydd eraill yn y canllawiau gwrth-fwlio. Yn unol â chwestiwn 3, roedd y wybodaeth ychwanegol a awgrymwyd yn cynnwys y canlynol:

- cofnodi a chyflwyno adroddiadau
- y cwricwlwm newydd
- cydraddoldeb a gwahaniaethu mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig unigol.

*“Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gasglu data ar fwlio… dylai awdurdodau lleol ddadansoddi'r data ar fwlio a gesglir gan ysgolion…”* [Cyfieithiad]


*"Mae'r broses o ddatblygu'r cwricwlwm newydd yng Nghymru yn cynnig cyfle i sicrhau y caiff yr egwyddorion sy'n sail i'r Canllawiau hyn eu cynnwys. Byddai'n ddefnyddiol pe byddai'r Canllawiau terfynol yn gwneud cyfeiriadau uniongyrchol, aml ac amlwg at y cwricwlwm newydd."* [Cyfieithiad]

## Cwestiwn 5

### Ar raddfa o 1–-5 (1 = 'dim o gwbl', 5 = 'defnyddiol iawn'), pa mor ddefnyddiol yw'r canllawiau gwrth-fwlio? A oes yna welliannau yr hoffech chi eu gweld nad ydych chi wedi cael cyfle i wneud sylwadau arnynt uchod? (Rhowch 'X' yn y bocs perthnasol.)


Mae'r siart cylch isod yn adlewyrchu cymhareb ganrannol yr holl ymatebion i'r cwestiwn hwn, gan gynnwys achosion lle nad atebodd ymatebwyr y cwestiwn hwn

O ganlyniad i dalgrynnu, mae'n bosibl na fydd bob amser yn ymddangos bod y canrannau a ddangosir yn y siart isod yn dod i gyfanswm o 100%



Mae'r siart cylch isod yn adlewyrchu cymhareb ganrannol yr ymatebion lle yr atebodd yr ymatebwyr y cwestiwn hwn drwy nodi sgôr yn erbyn un o'r pum blwch sgorio.

O ganlyniad i dalgrynnu, mae'n bosibl na fydd bob amser yn ymddangos bod y canrannau a ddangosir yn y siart isod yn dod i gyfanswm o 100%




Rhoddodd naw allan o 10 ymatebwr sgôr o dri neu'n uwch wrth ystyried defnyddioldeb y canllawiau. Nododd 10% o'r ymatebwyr fod y canllawiau yn ddefnyddiol iawn. Nododd 3% o'r ymatebwyr nad oedd y canllawiau yn ddefnyddiol o gwbl.

Roedd y sylwadau ategol yn cynnwys y canlynol:

*“Mae angen ailystyried y ffotograffau a gaiff eu defnyddio drwy'r canllawiau. Nid ydynt fel petaent yn ystyried hil, rhywedd, anabledd ac ati mewn ffordd gynhwysol"* [Cyfieithiad]

*"Er bod y cynnwys yn dda, mae cyfrifoldeb ar yr ysgolion o hyd i gyfaddef fod achosion o fwlio yn mynd rhagddynt, sy'n aml yn rhywbeth nad ydynt yn barod i'w gyfaddef."* [Cyfieithiad]


*"Rhaid i weithgareddau ymgysylltu â rhieni a disgyblion fynd law yn llaw â'r canllawiau neu'r broses o ddatblygu polisïau bwlio mewn ysgolion".* [Cyfieithiad]

*"Mae'r canllawiau fwyaf defnyddiol wrth ddarparu trosolwg o'r maes cyfan a chyflwyno'r wybodaeth mewn un man. Yn sicr, mae angen yr adran diffiniadau a bydd yn llywio trafodaethau mewn ysgolion".* [Cyfieithiad]

## Cwestiwn 6

### Pa un o'r teitlau canlynol yr hoffech chi ei weld yn cael ei roi ar y canllawiau gwrth-fwlio? (Dewiswch un opsiwn trwy roi 'X' yn y bocs perthnasol.)

O ganlyniad i dalgrynnu, mae'n bosibl na fydd bob amser yn ymddangos bod y canrannau a ddangosir yn y siart isod yn dod i gyfanswm o 100%




| Trefn y teitlau yr hoffai ymatebwyr eu gweld | Teitl arfaethedig: |
|---|---|
| 1af | Gwybod eich hawliau, dangos parch, bod yn gyfartal: Atal a herio bwlio |
| 2il | Dim un o'r opsiynau uchod – cynigiwch deitl amgen yn y bocs sylwadau ategol |
| 3ydd | Ysbrydoli hawliau, parch a chydraddoldeb: Atal a herio bwlio |
| 4ydd | Gwybod eich hawliau, dangos parch, bod yn gyfartal: Atal a threchu bwlio |
| 5ed | Ysbrydoli hawliau, parch a chydraddoldeb: Atal a threchu bwlio |

**Awgrymiadau amgen a gynigiwyd ar gyfer y teitl:**

- *“Parchu eraill: atal a threchu bwlio”* [Cyfieithiad]
- "NA i fwlio" [Cyfieithiad]
- *“Canllawiau gwrth-fwlio 2019”* [Cyfieithiad]

- *“Ysbrydoli parch, hawliau, cyfrifoldeb a chydraddoldeb. Gweithio tuag at gymdeithas heb fwlio"* [Cyfieithiad]
- *“Yr hawl i gael parch – atal a threchu bwlio”* [Cyfieithiad]
- *“Sut i drechu bwlio!”* [Cyfieithiad]
- *“Dealltwriaeth gyffredin o gydberthnasoedd parchus, datblygu cynhwysiant a chydraddoldeb mewn ysgolion”* [Cyfieithiad]
- *“Datblygu cynhwysiant a thegwch mewn ysgolion drwy ddealltwriaeth gyffredin o gydberthnasoedd parchus”* [Cyfieithiad]
- *“Parchu eraill”* [Cyfieithiad]
- *"Canllaw i atal bwlio"* [Cyfieithiad]
- *“Atal a herio bwlio: ysbrydoli hawliau, parch a chydraddoldeb”* [Cyfieithiad]
- *“Parchu Eraill: Ysbrydoli hawliau, parch a chydraddoldeb - atal a herio bwlio”* [Cyfieithiad]
- *“Deall eich hawliau, dangos parch, bod yn gyfartal: Atal a threchu bwlio”.* [Cyfieithiad]
- *“Gwireddu ein hawliau – teimlo'n ddiogel, yn hyderus, cael ein clywed…”* [Cyfieithiad]


## Pecyn cymorth adnoddau gwrth-fwlio

## Cwestiwn 7

### Ar raddfa o 1–-5 (1 = 'dim o gwbl', 5 = 'defnyddiol iawn'), pa mor ddefnyddiol yw'r pecyn cymorth gwrth-fwlio o ran cefnogi'r broses o roi'r canllawiau gwrth-fwlio ar waith yn ymarferol?


Mae'r siart cylch isod yn adlewyrchu cymhareb ganrannol yr holl ymatebion i'r cwestiwn hwn, gan gynnwys achosion lle nad atebodd ymatebwyr y cwestiwn hwn

O ganlyniad i dalgrynnu, mae'n bosibl na fydd bob amser yn ymddangos bod y canrannau a ddangosir yn y siart isod yn dod i gyfanswm o 100%



Mae'r siart cylch isod yn adlewyrchu cymhareb ganrannol yr ymatebion lle yr atebodd yr ymatebwyr y cwestiwn hwn drwy nodi sgôr yn erbyn un o'r pum blwch sgorio.

O ganlyniad i dalgrynnu, mae'n bosibl na fydd bob amser yn ymddangos bod y canrannau a ddangosir yn y siart isod yn dod i gyfanswm o 100%




Rhoddodd naw allan o 10 ymatebwr sgôr o dri neu'n uwch wrth ystyried defnyddioldeb y pecyn cymorth. Nododd 13% o'r ymatebwyr fod y pecyn cymorth yn ddefnyddiol iawn. Nododd 3% o'r ymatebwyr nad oedd y pecyn cymorth yn ddefnyddiol o gwbl.

Roedd y sylwadau ategol yn cynnwys y canlynol:

*“Yn hawdd ei ddeall ond mae llawer o wybodaeth – onid allai lethu ysgolion?”* [Cyfieithiad]

*"Mae'n weledol ac yn helpu i atgyfnerthu a chyfleu'r prif negeseuon a gyflwynir gan y canllawiau... yn y rhannau mwy rhyngweithiol, mae'n llwyddo i ddal sylw pobl yn well ac mae'n fwy hygyrch."* [Cyfieithiad]

*"Mae'r syniad o gael pecyn cymorth adnoddau ychwanegol yn dda. Gallai fod yn ddefnyddiol iawn, os caiff ei gynllunio'n briodol a'i ddiweddaru'n rheolaidd."* [Cyfieithiad]


*"Ar hyn o bryd, mae'n cynnig mwy o restr llyfrau na phecyn cymorth ymarferol... byddai crynodebau o'r dogfennau a'r polisïau allweddol hynny yn ddefnyddiol."* [Cyfieithiad]

## Cwestiwn 8

### Ar raddfa o 1–-5 (1 = 'dim o gwbl', 5 = 'hygyrch iawn'), pa mor hygyrch yw'r pecyn cymorth adnoddau?


Mae'r siart cylch isod yn adlewyrchu cymhareb ganrannol yr holl ymatebion i'r cwestiwn hwn, gan gynnwys achosion lle nad atebodd ymatebwyr y cwestiwn hwn

O ganlyniad i dalgrynnu, mae'n bosibl na fydd bob amser yn ymddangos bod y canrannau a ddangosir yn y siart isod yn dod i gyfanswm o 100%




Mae'r siart cylch isod yn adlewyrchu cymhareb ganrannol yr ymatebion lle yr atebodd yr ymatebwyr y cwestiwn hwn drwy nodi sgôr yn erbyn un o'r pum blwch sgorio.

O ganlyniad i dalgrynnu, mae'n bosibl na fydd bob amser yn ymddangos bod y canrannau a ddangosir yn y siart isod yn dod i gyfanswm o 100%.



Rhoddodd dros dri chwarter (86%) o'r ymatebwyr sgôr o dri neu'n uwch wrth ystyried hygyrchedd y pecyn cymorth. Nododd 25% o'r ymatebwyr fod y pecyn cymorth yn ddefnyddiol iawn. Nododd 7% o'r ymatebwyr nad oedd y pecyn cymorth yn ddefnyddiol o gwbl.

Roedd y sylwadau ategol yn cynnwys y canlynol:

*"Mae trefnu'r adnoddau a'r deunyddiau yn effeithiol yn hanfodol er mwyn gallu symud drwyddynt... gellid eu trefnu yn ôl thema, ystod oedran, math o gynulleidfa, math o adnoddau, adnodd Saesneg yn unig, adnodd dwyieithog, adnoddau mewn ieithoedd eraill (gan gynnwys i'r rheini â nam ar eu synhwyrau".* [Cyfieithiad]


*"Er ei fod wedi'i rannu'n adrannau sy'n gysylltiedig â phenawdau'r penodau, mae rhestr o deitlau heb esboniad o'u cynnwys yn golygu ei bod yn anodd dod o hyd i adnoddau defnyddiol."* [Cyfieithiad]

*"Yn hawdd dod o hyd iddo a'i ddefnyddio ond os na fydd cyfeiriadau at yr adnoddau, gall fod yn llethol."* [Cyfieithiad]

## Cwestiwn 9

### A oes unrhyw adnoddau penodol yn y pecyn cymorth sy'n ddefnyddiol i chi? Os felly, nodwch pa rai a pham maen nhw'n ddefnyddiol.

O ganlyniad i dalgrynnu, mae'n bosibl na fydd bob amser yn ymddangos bod y canrannau a ddangosir yn y siart isod yn dod i gyfanswm o 100%




Tynnodd yr ymatebwyr sylw at nifer o adnoddau a oedd yn ddefnyddiol iawn, yn eu barn nhw. O blith yr adnoddau enghreifftiol a oedd ar gael, y rheini a ddyfynnwyd fel y rhai mwyaf defnyddiol oedd:

- Fideo Banter / Bullying (fodd bynnag, nododd nifer o ymatebwyr mai dim ond yn Saesneg y mae'r adnodd hwn ar gael)
- Stori Sam
- Taflenni ffeithiau ar gyfer mynd i'r afael â bwlio gwahaniaethol
- Templed ar gyfer ffurflen cofnodi digwyddiadau bwlio

Roedd y sylwadau ategol yn cynnwys y canlynol:

*“mae'r defnydd o'r fideo yn beth da: ffordd glir a chofiadwy o gyfleu'r materion."* [Cyfieithiad]

*"mae'r adran ar fathau penodol o fwlio a bwlio sy'n seiliedig ar ragfarn yn adran dda iawn. Defnyddiol iawn mewn byd newidiol!”* [Cyfieithiad]


*"Mae'r adnoddau ar arfer adferol a Stori Sam yn ymddangos yn ddefnyddiol iawn i arweinwyr ysgol wrth gynllunio dull gweithredu ysgol gyfan sy'n cynnwys rhanddeiliaid ehangach."* [Cyfieithiad]

*"Rwy'n croesawu'n arbennig y ffurflen ar gyfer cofnodi digwyddiadau bwlio a ffurflen cofnodi digwyddiadau bwlio ar-lein..."* [Cyfieithiad]

## Cwestiwn 10

### A oes unrhyw adnoddau penodol yn y pecyn cymorth nad ydynt yn ddefnyddiol i chi? Os felly, nodwch pa rai a pham nad ydynt yn ddefnyddiol.

O ganlyniad i dalgrynnu, mae'n bosibl na fydd bob amser yn ymddangos bod y canrannau a ddangosir yn y siart isod yn dod i gyfanswm o 100%




Tynnodd yr ymatebwyr sylw at nifer o adnoddau nad oeddent yn ddefnyddiol iawn, yn eu barn nhw. O blith yr adnoddau enghreifftiol a oedd ar gael, y rheini a ddyfynnwyd fel y rhai lleiaf defnyddiol oedd:

- Cardiau 'Beth yw bwlio neu beth sydd ddim yn fwlio'
- Yr adran ar y gyfraith sy'n ymwneud â bwlio

Roedd y sylwadau ategol yn cynnwys y canlynol:

*"Mae gormod o ddogfennau polisi o wahanol fath sy'n llethu'r defnyddiwr â gwybodaeth debyg"* [Cyfieithiad]


*Dylid diwygio'r adnoddau "Hoffwn i petai fy athro'n gwybod...". Ar hyn o bryd, dim ond wyneb sy'n gwenu y maent yn ei ddangos, a allai fod yn ddryslyd i rai disgyblion... dylai hefyd gynnwys wyneb trist er mwyn i ddisgyblion weld y gellir eu defnyddio er mwyn dweud wrth rywun eu bod yn teimlo'n drist hefyd."* [Cyfieithiad]

*"Dylai'r fideo yn y pecyn cymorth gynrychioli amrywiaeth hiliol. Nid yw'n gwneud hynny ar hyn o bryd. Efallai y byddai mwy o fideos yn cynnwys gwahanol fathau o senarios bwlio yn helpu i nodi achosion o fwlio sy'n ymwneud â hunaniaeth ac i ymdrin ag achosion o'r fath."* [Cyfieithiad]

## Cwestiwn 11

### Mae'r pecyn cymorth adnoddau yn dal i gael ei ddatblygu, a dim ond rhai o'r adnoddau rydym yn rhagweld y byddant ar gael sydd ar gael fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. I lywio'r gwaith parhaus hwn, a oes unrhyw feysydd neu bynciau nad oes adnoddau ar gael ar eu cyfer ar hyn o bryd yr hoffech chi eu gweld yn cael eu cynnwys yn fersiwn derfynol y pecyn cymorth?

O ganlyniad i dalgrynnu, mae'n bosibl na fydd bob amser yn ymddangos bod y canrannau a ddangosir yn y siart isod yn dod i gyfanswm o 100%




Tynnodd sawl ymatebwr sylw at y ffaith y byddai wedi bod yn fuddiol cael yr holl adnoddau y bwriedir eu cynnwys yn y fersiwn derfynol yn ystod y cyfnod ymgynghori. Fodd bynnag,

cyflwynodd yr ymatebwyr awgrymiadau ar gyfer datblygu'r pecyn cymorth ymhellach, gan gynnwys:

*"Adnoddau gwrth-fwlio y Comisiynydd Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, ac yn arbennig, yr astudiaeth achos ... a ddatblygwyd gydag Ysgol Uwchradd Crucywel, mewn perthynas â seiberfwlio a secstio."* [Cyfieithiad]

*"Cyfeirio at Schoolbeat.org lle ceir adnoddau i ddisgyblion, athrawon a rhieni mewn perthynas â bwlio."* [Cyfieithiad]

*"Gall siartiau llif ddarparu 'cipolwg' o weithdrefn gyflym i'w dilyn y gellir ei chadw lle y gall staff a phobl ifanc ei gweld."* [Cyfieithiad]

*"Achosion o fwlio gan ferched a sut i'w hatal a mynd i'r afael â nhw... canlyniadau i'r ysgolion nad ydynt yn ymateb yn briodol."* [Cyfieithiad]

*"Cod Ymarfer ac Arfer Proffesiynol Cyngor y Gweithlu Addysg [EWC]"* [Cyfieithiad]

*"Cyfranogiad ysgol gyfan wrth ddatblygu strategaethau gwrth-fwlio... byddai'r cyngor hwn yn gryfach pe câi ei ategu gan adnoddau i'r ymarferwyr yn dangos sut y gellid arwain ymarferion ymgynghori ysgol gyfan yn effeithiol."* [Cyfieithiad]

*"canllawiau cliriach ynghylch 'asiantaethau neu wasanaethau priodol', gellid cysylltu hyn â'r pecyn cymorth."* [Cyfieithiad]

*Adrannau penodol ar bob un o'r mathau canlynol o fwlio yn seiliedig ar ragfarn: Bwlio yn erbyn grwpiau crefyddol ac ethnig; Bwlio sy'n seiliedig ar rywedd; Bwlio homoffobig a thrawsffobig; Bwlio sy'n seiliedig ar anabledd."* [Cyfieithiad]

*"Dylai "Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant i Addysg yng Nghymru" ymddangos yn adran atal y pecyn cymorth."* [Cyfieithiad]

*"Adran ar ymgysylltu â theuluoedd yn ogystal ag adran yn dangos sut y gellir defnyddio dulliau cofnodi yn effeithiol i fonitro a chynllunio ymyriadau."* [Cyfieithiad]

*"Adran yn cysylltu â chynlluniau ymchwil peilot ac astudiaethau achos, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer sut y gall ysgolion fod yn rhan o waith ymchwil neu ddatblygiadau sy'n mynd rhagddynt. Byddai'n ddefnyddiol cynnwys canfyddiadau allweddol o'r treial atal KiVa cychwynnol a mwy yng Nghymru yn yr adran hon a hefyd i gynnwys canfyddiadau allweddol sy'n ymwneud â dulliau adferol a ddatblygwyd gan ysgolion yng Nghymru."* [Cyfieithiad]

*"Dylai'r pecyn cymorth hefyd nodi a lledaenu enghreifftiau go iawn o arfer gorau."* [Cyfieithiad]

*"Mae angen mwy o adnoddau ynghylch herio rhagfarn ar sail rhyw a bwlio rhywiol."* '[Cyfieithiad]

*"Adnoddau [Stonewall], yn arbennig y pecynnau cymorth 'Dechrau Arni' ar fynd i'r afael â bwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig a... Cyflwyniad i Gefnogi Pobl Ifanc Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thraws."* [Cyfieithiad]

*“Mae'n ddefnyddiol cynnwys y rhestr o asiantaethau a all helpu plant a phobl ifanc yn uniongyrchol… fel y gall staff ysgolion gyfeirio plant a phobl ifanc atynt i gael cymorth pellach fel y bo angen.”* [Cyfieithiad]

*"Mae ProMo-Cymru gyda Meic wedi datblygu amrywiaeth o gynnwys i ategu amrywiaeth o ymgyrchoedd gwrth-fwlio, y gellir cael gafael arnynt ar wefan Meic."* [Cyfieithiad]

*"Terminoleg briodol ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb a mynd i'r afael â hiliaeth".* [Cyfieithiad]

*"Adran ar-lein y gall pobl ifanc ei defnyddio eu hunain. Rhywle y gall pobl ifanc roi gwybod am fwlio gan wneud hynny naill ai'n ddi-enw neu gan roi enwau".* [Cyfieithiad]

*“Sefydliadau sy'n cynhyrchu gwybodaeth a chanllawiau ar faterion cydraddoldeb a bwlio… Stonewall… Y Bartneriaeth Cymorth Addysg…Y Gynghrair Gwrth-fwlio… LGBT History Month (Schools OUT UK yn flaenorol)… Consortiwm Cutting Edge…Teuluoedd a Ffrindiau Lesbiaid a Hoywon… Educational Action Challenging Homophobia (EACH)… Gender Intelligence.”* [Cyfieithiad]

*"Byddai'n ddefnyddiol i ysgolion Catholig pe gellid creu cysylltiad â Chanllawiau'r Gwasanaethau Addysg Catholig."* [Cyfieithiad]

## Cwestiwn 12

### Hoffem gael eich barn ar yr effaith y byddai diwygio'r canllawiau gwrth-fwlio yn ei chael ar y Gymraeg, ac yn benodol ar:

**I. gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg**

**II. peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.**

### Pa effaith y byddai hyn yn ei chael? Sut y gallai effeithiau cadarnhaol gael eu cynyddu, neu effeithiau negyddol gael eu lliniaru?

Nid atebodd cyfanswm o ychydig dros hanner (52%) yr ymatebwyr y cwestiwn hwn neu gwnaethant ateb "dim sylw".

O blith y 48% o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn:

- nododd 26% y dylai'r deunyddiau gwrth-fwlio fod ar gael yn ddwyieithog
- nododd 9% nad oes unrhyw oblygiadau ar gyfer y Gymraeg neu nad yw'r Gymraeg yn berthnasol i'r ymgynghoriad
- nododd 3% pe na fyddai'r holl ddeunyddiau gwrth-fwlio ar gael yn ddwyieithog y gall hyn gael effaith negyddol ar y Gymraeg
- nododd 2% effaith gadarnhaol ar y Gymraeg
- cyflwynodd 8% sylwadau cadarnhaol, nad oeddent yn ymwneud yn uniongyrchol â'r cwestiwn

## Cwestiwn 13

### Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r canllawiau gwrth-fwlio diwygiedig gael eu trefnu neu eu newid:

**I. i gael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**

**II. fel na fyddant yn cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Nid atebodd bron i dri chwarter (74%) yr ymatebwyr y cwestiwn hwn neu gwnaethant ateb "dim sylw".

O blith y 27% o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn;
- nododd 14% y dylai'r deunyddiau gwrth-fwlio fod ar gael yn ddwyieithog
- nododd 3% nad oes unrhyw oblygiadau ar gyfer y Gymraeg neu nad yw'r Gymraeg yn berthnasol i'r ymgynghoriad
- nododd 2% nad oedd yn hysbys sut y gallai'r canllawiau gwrth-fwlio diwygiedig gael eu trefnu neu eu newid i gael mwy o effeithiau cadarnhaol / fel na fyddant yn cael effeithiau andwyol ar y Gymraeg
- cyflwynodd 8% sylwadau cadarnhaol, nad oeddent yn ymwneud yn uniongyrchol â'r cwestiwn

## Cwestiwn 14

### Rydym wedi gofyn amryw o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw bryderon nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y gofod hwn i roi gwybod i ni amdanynt.

Darparodd ychydig llai na hanner (46%) o'r ymatebwyr adborth i'r cwestiwn hwn. Ailbwysleisiodd nifer o'r ymatebwyr ddatganiadau a ddarparwyd eisoes mewn ymateb i gwestiynau cynharach. Roedd y pwyntiau newydd neu ategol a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

*"Argymhellir y dylai fod yn ofynnol i ysgolion gofnodi digwyddiadau o fwlio mewn ysgolion, yn hytrach nag awgrym".* [Cyfieithiad]

*"Mae angen rhagor o wybodaeth am sut i ymdrin ag achos o fwlio y tu allan i'r ysgol"* [Cyfieithiad]

*"Mae angen defnyddio terminoleg ADY y Ddeddf a'r Cod ADY newydd yn hytrach nag AAA."* [Cyfieithiad]

*"Credwn y dylai Llywodraeth Cymru ddilyn enghreifftiau o wledydd fel Ffrainc â'i hymgyrch 'All Equal, All Allies'; Awstralia â'i rhaglen Ysgolion Diogel, a Ffindir â'i rhaglen KiVa, gan*

*ddarparu arweinyddiaeth fanwl mewn perthynas â rhoi gwybod am achosion o fwlio LGBTQ+ ac ymdrin ag achosion o'r fath ar yr un pryd."* [Cyfieithiad]

*"Mwy o wybodaeth am y ffordd y gall staff nodi newidiadau mewn ymddygiad plant a sylwi ar anawsterau gan na fydd rhai plant yn barod i ddod at oedolion neu'n dangos blaengaredd."* [Cyfieithiad]

*"Mae statws y canllawiau Parchu eraill yn golygu mai rhoi cyngor ac awgrymiadau a wneir i ysgolion, a gallant ddewis anwybyddu'r cyngor a'r awgrymiadau hyn."* [Cyfieithiad]

*"Mae angen creu canllawiau a'u dosbarthu i oedolion hefyd. Mae bwlio yn y gweithle yn endemig yng Nghymru. Mae angen ei ystyried yn ffurfiol ac ymdrin ag ef."* [Cyfieithiad]